

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
4 Medi 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams, Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Emyr Williams,
Ifor D. Williams, Ian Jones
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

MATERION A DRAFODWYD

Porth Eglwys Sant Baglan

Cysylltodd y Clerc â dau grefftwr sy'n arbenigo mewn gwaith henebion, er mwyn trafod gwaith atgyweirio i'r porth.

Mae to'r porth wedi dirywio dros y blynyddoedd, a'r hoelion pren sy'n dal y to wedi rhoi. Ymddengys fod y to wedi ei drwsio rhai blynyddoedd yn ôl, ond fod y gwaith hwnnw wedi ei wneud drwy roi concriid ar ben y llechi, yn hytrach nag ail-wneud y to o'r tu mewn. Cafwyd amcan brisiau oedd yn golygu gwariant o rai miloedd, a hyn yn bennaf oherwydd arbenigedd y gwaith.

Penderfynwyd fod yn rhaid cael sicrwydd mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y porth cyn bod ymrwymiad i unrhyw wariant. Cymdeithas Cyfeillion Eglwysi Diffrindiau sydd berchen yr Eglwys a Chyngor Gwynedd y fynwent, ond nid yw hi'n glir pwy sy'n berchen y porth. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau pellach i berchnogaeth y porth.

Cylchdro Glan Beuno Cytunodd y Cynghorydd Geraint R. Jones ddrafftio ymateb i'w ddanfon at yr Asiantaeth Priffyrdd yn dilyn eu cyfarfod ar y safle.

Maes Chwarae Llwyn Beuno Bu'r Cynghorwyr Christopher Hughes a Dafydd Iwan mewn cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd. Barn y swyddogion ydy er bod yna fân ddiffygion, fod yr offer yn gyffredinol mewn cyflwr derbyniol, ac yn yr hinsawdd ariannol bresennol, fydd Cyngor Gwynedd ddim yn gwario ar offer newydd.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gan dynnu sylw at y canlynol:

1. Torri'r gwair yn amlach
2. Trwsio'r sedd siglen sydd wedi torri
3. Cael gwared â'r paent ar y teiliau rwber

Oherwydd pryderon am blant yn cicio peli yn erbyn waliau tai sy'n ffinio â'r maes chwarae, rhaid gofyn beth yw polisi Cyngor Gwynedd o ran cicio peli ac oedran defnyddio meysydd chwarae.

Defnyddio Maes Parcio CPD Bontnewydd Ymddengys fod y trefniant o ganiatáu Parc y Sipsiwn ddefnyddio maes parcio Clwb Pêl Droed Bontnewydd ar adegau prysur yn ystod yr haf wedi gweithio'n ddidrafferth. Cytunwyd fod y

Clerc yn ysgrifennu at Goed y Sipsiwn, er mwyn trafod ymhellach, a gall y Cyngor wedyn benderfynu a ddylai'r trefniant barhau yn 2015.

Holiadur angen am dai Dyluniwyd holiadur gan y Cynghorydd Dafydd Iwan, ac fe'i dosbarthwyd i dai yn ardal y Bontnewydd. Siomedig fu'r ymateb, gyda dim ond 5 holiadur wedi eu cwblhau.

Cyffordd Lôn Groes a Mynedfa Plas y Bryn Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ag argymhelliad y Cyngor i baentio llinell wen wrth fynedfa Plas y Bryn a Lôn Groes, er mwyn sicrhau fod traffig sy'n ymuno â'r Lôn Groes yn arafu. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y bythefnos nesaf.

Mynegwyd pryder unwaith eto am y broblem barcio yn Lôn Groes - problem oedd ar ei gwaethaf yn ystod yr haf. Y Clerc i ymchwilio a gohebu â Chyngor Gwynedd parthed hanes y broblem.

Hysbysfyrddau y Bontnewydd a Llanfaglan Mae gwydr wedi ei lamineiddio wedi ei osod yn hysbysfwrdd y Bontnewydd wedi iddo gael ei dorri'n fwriadol. Gan fod problemau niferus wedi bod gyda chloeon hysbysfyrddau'r Bontnewydd a Llanfaglan, mae North Wales Fencing wedi gosod clapiau i dderbyn clo clap arnynt. Cytunwyd fod y Clerc yn prynu cloeon clap gyda rhif arnynt, fel y gall mwy nag un person gael mynediad i'r hysbysfyrddau.

Gosod llinellau melyn Bwriada Cyngor Gwynedd osod llinellau melyn dwbl ar y ddwy gornel ger y fynedfa i stad Glanrafon. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad i hyn.

Gosod Parc y Plwyf Cadarnhawyd fod Parc y Plwyf wedi ei osod am gyfnod o 5 mlynedd, ar yr amod fod gwaith yn cael ei wneud i dacluso a dod â'r cae i drefn.

Arhosfan fysiau Llanfaglan Mynegwyd pryder fod yr arhosfan fysiau lle mae plant Llanfaglan yn dal y bws i Ysgol Syr Hugh Owen mewn lleoliad peryglus, ar y gyffordd rhwng Lôn Pant a'r ffordd i gyfeiriad Y Bontnewydd. Ystyriwyd y byddai'n ddiogelach pe byddai'r arhosfan yn cael ei hail-leoli i fan agosach at Barc y Plwyf. Mae bysiau gwasanaeth ar hyn o bryd yn gollwng teithwyr yno. Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi'r pryderon.

Goryrru Llanfaglan Mynegwyd pryder fod goryrru yn parhau i ddigwydd yn gyson yn Llanfaglan, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru i ofyn am ddata am gyflymder y ceir sy'n teithio drwy Lanfaglan.

Llwybrau cyhoeddus Mae arwyddion nifer o lwybrau cyhoeddus yr ardal un ai ar goll neu'n gamarweiniol. Cytunwyd fod y Clerc yn gofyn i swyddog o Gyngor Gwynedd ddod i drafod cyfrifoldeb am y llwybrau, a sut y gellir sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn iawn.

Gwersylla yn y Foryd

Bu esiamplau niferus o gerbydau yn parcio ac yn gwersylla ar lôn y foryd dros yr haf. Mae un neu ddau o gerbydau wedi bod yno'n barhaol am gyfnodau o rai

misoedd gydag o leiaf un enghraifft o ddefnydd parhaol o eneradur. Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd am sicrwydd y bydd camau gorfodaeth briodol yn cael eu cymryd o hyn ymlaen.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 2 Hydref 2014, am 7yh.